# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2024

Amser: 09.01 - 09.21

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 19:15.

Gofynnodd Darren Millar a Heledd Fychan am ddatganiad llafar ar Fferm Gilestone yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr. Nododd y Trefnydd y byddai'r Llywodraeth yn ystyried y cais.

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- ~~Dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 28 Chwefror*
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Yr heriau sy’n wynebu gweithlu’r diwydiant creadigol yng Nghymru (60 munud) *Ail-drefnwyd o 24 Ionawr*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 19:50.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

<u>Dydd Mercher 20 Chwefror 2024</u>

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: System a Siarter Budd-daliadau Cymru (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2024 –**

- <u>Dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 (60 munud)</u> *Ail-drefnwyd o 31 Ionawr*
- <u>Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)</u>
- <u>Dadl Fer: Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)</u>

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): dyrannu slotiau cyfarfod

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddyraniad slotiau cyfarfod i Bwyllgor o’r Senedd Gyfan ar gyfer trafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), pe bai’r cynigion perthnasol yn cael eu cytuno ar 30 a 31 Ionawr.

Yn dilyn trafodaeth, ar ôl i Darren Millar fynegi pryderon ynghylch cynnal trafodion Cyfnod 2 ar yr un diwrnod â’r ddadl ar Gyllideb Derfynol 2024-25, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddyrannu slot i Bwyllgor o’r Senedd Gyfan ar ôl i’r Cyfarfod Llawn ddod i ben ar 5 Mawrth a 6 Mawrth ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Bil.

Nododd y Trefnydd y byddai busnes y Llywodraeth ar 5 Mawrth yn cael ei gyfyngu at yr eitemau hanfodol.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor ar y camau a ganlyn:

- y byddai busnes anllywodraethol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 6 Mawrth yn cael ei gyfyngu at Gwestiynau i Gomisiwn y Senedd, Cwestiynau Amserol, Datganiadau 90 Eiliad a'r Ddadl Fer;
- i ystyried yn nes at yr amser a ddylai’r Cyfarfod Llawn ddechrau’n gynharach ar naill ai 5 neu 6 Mawrth, neu’r ddau;
- dyrannu slot cyfarfod i Bwyllgor o'r Senedd Gyfan yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn ar 20 Chwefror at ddibenion trafod unrhyw gynnig a gyflwynir gan y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan mewn cysylltiad â threfn ystyried trafodion Cyfnod 2 y Bil.

## 4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth Traws-Môr Tawel) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth,

Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau o 15 Mawrth 2024 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i’r cais i gynnal dadl ar ddeiseb P-06-1367 Dylid ariannu gwaith i symud creigiau chwarel ac adfer tywod a grwynau i Lannau Gogledd Llandudno, ac i'r ysgrifenyddiaeth gytuno ar ddyddiad addas ar gyfer y ddadl hon gyda'r Pwyllgor Deisebau.